# Cynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Pennu amcanion llesiant yn Trafnidiaeth Cymru

Mawrth 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigurau allweddol | 6 |
| Ein canfyddiadau | 7 |
| Argymhellion | 17 |
| Atodiadau | 19 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 20 |
| 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 22 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), rhaid i Trafnidiaeth Cymru a rhai cyrff cyhoeddus eraill penodol bennu 'amcanion llesiant' i greu Cymru well, yn awr ac yn y dyfodol. Ar ôl pennu'r amcanion hyn, rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni hefyd.

2 Wrth bennu amcanion, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried eu heffaith ar y 'nodau llesiant' cenedlaethol yn y Ddeddf. Rhaid iddynt hefyd gynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses ac ystyried sut y gallent weithio gyda phartneriaid i'w cyflawni. Yn y pen draw, rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl am y tymor hwy, fel y gallant ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Adwaenir hyn fel yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy'.

3 Fe wnaethom ystyried sut y gwnaeth Trafnidiaeth Cymru gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth iddo bennu ei amcanion llesiant a dechrau cynllunio i'w cyflawni. Dechreuodd Trafnidiaeth Cymru ddatblygu'r amcanion yng ngwanwyn 2024, ac yna fe'u cyhoeddodd ym mis Ebrill 2025.

## Pam mae hyn yn bwysig

4 Dylai amcanion llesiant bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Dylent helpu cyrff cyhoeddus i gynllunio'r camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd yn y tymor byr a chanolig i wella llesiant y bobl a'r lleoedd y maent yn eu gwasanaethu. Er mwyn i'r Ddeddf gael yr effaith a ddymunir, bydd hi'n bwysig i gyrff cyhoeddus bennu eu hamcanion yn effeithiol a chyfleu'n eglur sut y maent wedi gwneud hynny.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Ar y cyfan, canfuom fod Trafnidiaeth Cymru wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant cyntaf. Fodd bynnag, gallai fynd ymhellach o lawer pan fo'n gwneud hyn y tro nesaf, gan gynnwys trwy gynnwys rhagor o randdeiliaid.

6 Fe bennodd Trafnidiaeth Cymru ei amcanion llesiant cyntaf ar wahân i'w brif Strategaeth Gorfforaethol 2021-2026, er ei fod yn cydnabod pwysigrwydd dod â chynlluniau ac amcanion ynghyd yn y dyfodol. Byddai gwneud hynny'n cyflwyno cyfleoedd i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau mwy helaeth ac yn helpu i roi'r amcanion llesiant wrth graidd y sefydliad.

## Yr hyn a argymhellir gennym

7 Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad. Maent yn canolbwyntio ar integreiddio'r amcanion llesiant â strategaeth gorfforaethol a chynllun busnes blynyddol Trafnidiaeth Cymru, a datblygu trefniadau monitro. Maent hefyd yn ymdrin â chryfhau trefniadau i gynnwys pobl a datblygu'r datganiad llesiant pan fydd Trafnidiaeth Cymru'n pennu ei amcanion llesiant nesaf.

8 Rydym yn cydnabod, ers pennu ei amcanion llesiant, bod Trafnidiaeth Cymru wedi parhau i ddatblygu ei ffordd o feddwl am sut y mae'n mynd ati i'w cyflawni a'i fod yn gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar draws ei waith.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

## Llesiant yng Nghymru

**7** Nodau llesiant cenedlaethol i Gymru

- Mwy cyfartal
- Cydnerth
- Yn gyfrifol yn fyd-eang
- Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Iachach
- Llewyrchus
- Cymunedau cydlynus

**5** Ffyrdd o weithio y mae'n rhaid i gyrff eu hystyried wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy:

- Hirdymor
- Integreiddio
- Cynnwys
- Cydweithio
- Atal

## Amcanion llesiant Trafnidiaeth Cymru

**4** Amcanion llesiant a bennwyd gan Trafnidiaeth Cymru ym mis Ebrill 2025:

- Galluogi pobl a chymunedau
- Bod o fudd i'r amgylchedd
- Cefnogi ardaloedd lleol a'r economi
- Dyrchafu'r Gymraeg a diwylliant Cymru

# Ein canfyddiadau

## Cynllunio

### Mae Trafnidiaeth Cymru wedi dylunio ei amcanion llesiant i wella llesiant Cymru, ond cyfyngedig fu gweithgarwch i gynnwys staff a rhanddeiliaid allanol

#### Dull cyffredinol

9 Daeth Trafnidiaeth Cymru'n gorff a enwir dan y Ddeddf ar 30 Mehefin 2024. Cyhoeddodd ei amcanion llesiant cyntaf yn ei ddatganiad llesiant ar 29 Ebrill 2025. Roedd hyn ychydig yn hwyrach na'r terfyn amser statudol, sef 31 Mawrth 2025, er ei fod wedi trafod hyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ymlaen llaw.

10 Mae'n ofynnol i Trafnidiaeth Cymru gynhyrchu datganiad o'r fath, a dylai gynnwys gwybodaeth benodol. Fodd bynnag, nid yw datganiad llesiant Trafnidiaeth Cymru yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol (gweler hefyd **baragraff 34**).

11 Mae rhwydd hynt i gyrff cyhoeddus benderfynu sut y maent yn pennu eu hamcanion llesiant. Fodd bynnag, mae'n arfer da eu bod yn sicrhau mai'r un yw eu hamcanion llesiant a'u blaenoriaethau corfforaethol. Nid yw Trafnidiaeth Cymru wedi gwneud hyn; mae ei amcanion llesiant yn bodoli ar wahân i'w brif strategaeth gorfforaethol.

12 Mae'r dull hwn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith bod strategaeth gorfforaethol bresennol Trafnidiaeth Cymru'n rhedeg o 2021 tan 2026. Felly, nid oedd y gofyniad newydd i bennu amcanion llesiant yn cyd-fynd â'i gylch cynllunio corfforaethol presennol ac fe ddewisodd Trafnidiaeth Cymru beidio â diweddaru'r strategaeth yn gynnar.

13 Mae Trafnidiaeth Cymru o'r farn bod diweddaru'r strategaeth gorfforaethol yn gyfle i ddwyn ei gynlluniau a'i amcanion llesiant ynghyd, er nad oedd wedi penderfynu sut yn union y byddai'n gwneud hyn ar adeg ein hadolygiad ni. Wrth benderfynu hyn, bydd hi'n bwysig i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y gall roi'r amcanion wrth graidd y sefydliad ac osgoi cymhlethdod diangen ar draws ei gynlluniau a'i amcanion (gweler **paragraffau 29 a 37**).

14 Mae Trafnidiaeth Cymru o'r farn ei fod eisoes wedi bod yn gweithio yn ysbryd y Ddeddf am nifer o flynyddoedd. Mae wedi bod yn gweithio i adeiladu ar hyn ers mis Mehefin 2024. Fe geisiodd gyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (y Comisiynydd) ar bennu amcanion llesiant a rhoi'r Ddeddf ar waith yn ehangach. Mae wedi defnyddio offer hunanasesu'r Comisiynydd ac wedi adnabod meysydd i'w gwella a chamau gweithredu cysylltiedig (gweler **paragraff 24**).

## Deall y tymor byr a hwy

15 Defnyddiodd Trafnidiaeth Cymru ei flaenoriaethau strategol presennol fel man cychwyn ar gyfer siapio ei amcanion llesiant cyntaf. Yn benodol, tynnodd ar y strategaeth drafnidiaeth genedlaethol, Llwybr Newydd, a'r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth. Goleuwyd y dogfennau hyn gan ymchwil a thystiolaeth ymgynghori berthnasol. Felly fe oleuwyd amcanion llesiant Trafnidiaeth Cymru, yn anuniongyrchol, gan y dystiolaeth honno.

16 Fe wnaeth Trafnidiaeth Cymru adolygu rhai ffynonellau tystiolaeth allweddol eraill hefyd i'w sicrhau ei hun ei fod wedi cynnwys y themâu cywir yn ei amcanion drafft. Roeddent yn cynnwys adroddiadau Llesiant Cymru ac adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru ac Adroddiadau Cenedlaethau'r Dyfodol y Comisiynydd. Mae'r ffynonellau tystiolaeth hyn yn darparu mewnwelediad i heriau strategol byrdymor a hirdymor.

17 Ni wnaeth Trafnidiaeth Cymru dynnu'n uniongyrchol ar wybodaeth am ei berfformiad ei hun i oleuo ei amcanion llesiant. Mae hyn yn cynnwys data allweddol am berfformiad, sy'n ymwneud â threnau yn bennaf, y mae'n adrodd arno'n rheolaidd, yn ei gyhoeddi ar ei wefan, ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu ei gynllun busnes (gweler **paragraffau 36 i 39**). Fodd bynnag, fe ddarparodd tîm arwain gweithredol Trafnidiaeth Cymru ei farn ac fe rannodd ei wybodaeth am y busnes a pherfformiad.

18 Yn fwy eang, mae Trafnidiaeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd cryfhau ei gapasiti a'i allu i sganio'r gorwel, a allai hefyd helpu i oleuo ei amcanion llesiant nesaf. Mae Trafnidiaeth Cymru'n aelod o Hwb Dyfodol, sef hwb meddylfryd y dyfodol Cymru, y mae'n ei ystyried yn ffordd o wreiddio meddylfryd y dyfodol yn ei weithrediadau.

## Cynnwys eraill

19 Cafodd Tîm Arwain Gweithredol Trafnidiaeth Cymru ei gynnwys mewn camau allweddol wrth ddatblygu'r amcanion llesiant. Fe wnaethant drafod yr amcanion drafft gyda'i gilydd ac fe gyfarfu pob aelod gyda'r tîm a oedd wedi cael gorchwyl i'w datblygu hefyd. Fe wnaeth Trafnidiaeth Cymru hefyd geisio barn Arweinwyr Datblygu Cynaliadwy mewnol, sy'n arwain ar wahanol agweddau ar waith sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd, wrth ddatblygu'r amcanion drafft.

20 Cafodd yr amcanion drafft eu rhannu ar gyfer sylwadau gyda grŵp ehangach o staff yng 'Nghyngor y Cwmni – Pob Gradd' yn gynnar yn 2025. Mynychir y Cyngor gan gynrychiolwyr ac aelodau undebau.

21 Mae Trafnidiaeth Cymru o'r farn bod yr ymgysylltiad â'r Cyngor wedi helpu i gyflawni ei ddyletswydd i 'geisio consensws neu gyfaddawd' gyda phartneriaid cymdeithasol wrth bennu amcanion llesiant, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth honno'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori yng nghyfnod ffurfiannol y broses ac fel arall trwy gydol y broses. Roedd amcanion Trafnidiaeth Cymru wedi cael eu penderfynu i raddau helaeth erbyn yr adeg y gwnaeth eu rhannu gyda'r Cyngor. Mae Trafnidiaeth Cymru'n cydnabod y gallai wella hyn wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

22 Cyfyngedig iawn oedd gweithgarwch Trafnidiaeth Cymru i gynnwys y cyhoedd wrth bennu ei amcanion llesiant. Siaradodd gyda nifer fach o bobl yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn haf 2024, gan ofyn beth oedd y blaenoriaethau i Trafnidiaeth Cymru yn eu tyb hwy. Er bod staff wedi dweud wrthym bod hyn wedi darparu mewnwelediadau defnyddiol, maent yn cydnabod na wnaeth gasglu amrywiaeth o farn. Mae Trafnidiaeth Cymru'n cydnabod y bydd angen iddo fynd ymhellach pan fydd yn pennu amcanion y tro nesaf.

23 Mae gan Trafnidiaeth Cymru gysylltiadau sydd wedi hen ennill eu plwyf ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, darparwyr trafnidiaeth a phaneli hygyrchedd. Fodd bynnag, ni chafodd y grwpiau hyn eu cynnwys yn uniongyrchol wrth ddatblygu'r amcanion llesiant. Bydd hi'n bwysig i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y gall geisio barn y rhanddeiliaid hyn pan fydd yn pennu amcanion llesiant y tro nesaf (gweler **paragraffau 30 i 31**).

24 Er nad oedd hynny'n gysylltiedig yn benodol â'r amcanion llesiant, mae Trafnidiaeth Cymru wedi ceisio barn staff i'w helpu i ddeall pa mor effeithiol y mae'n rhoi'r Ddeddf ar waith ar y cyfan. Defnyddiodd offer hunanasesu a ddarparwyd gan y Comisiynydd ac, fel rhan o hynny, fe wahoddodd staff i sesiynau galw-i-mewn ac fe lansiodd arolwg. Fodd bynnag, roedd ymgysylltiad yn isel gyda dim ond cyfran fach o staff – llai na 50 – yn darparu eu barn ar y cyfan.

25 Mae Trafnidiaeth Cymru'n cydnabod yr angen i gynnwys staff yn fwy eang wrth iddo geisio cyflawni ei amcanion llesiant. Mae wedi adnabod y bydd hyn yn her, o ystyried ei faint a nifer y staff gweithredol, rheng-flaen. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi lansio ymgyrch cyfathrebu mewnol i godi ymwybyddiaeth staff o'r amcanion. Mae hefyd yn bwriadu cynnal hyfforddiant gorfodol ar y Ddeddf a'i amcanion.

## Meddwl yn integredig

26 Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ystyried y cyfraniad y gall ei wneud i bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae wedi fframio ei amcanion ar sail llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae datganiad llesiant Trafnidiaeth Cymru'n disgrifio ystod o fanteision bwriadedig, gan gynnwys i gymunedau, iechyd, yr amgylchedd, a'r Gymraeg.

27 Mae Trafnidiaeth Cymru'n cydnabod ei rôl bwysig o ran cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol. Mae ei amcanion llesiant yn cyd-fynd yn fras â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth a'i blaenoriaethau ehangach.

28 Mae'r blaenoriaethau yn y llythyr cylch gwaith oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi'u cwmpasu'n ddealledig gan yr amcanion llesiant a naratif ategol yn y datganiad llesiant.[1] Nid yw'r pwyslais yn y llythyr cylch gwaith ar 'ddatblygu cyfleoedd masnachol ac ymddygiadau i gynyddu refeniw a lleihau costau cymaint ag y bo modd' wedi'i nodi mor eglur yn y datganiad llesiant â blaenoriaethau eraill. Fodd bynnag, mae'r datganiad yn cynnwys rhai cyfeiriadau cysylltiedig, megis defnyddio technoleg i gynyddu effeithlonrwydd a 'phrofiad defnyddwyr'.

29 Mae rôl Trafnidiaeth Cymru wedi tyfu ers iddo gyhoeddi ei strategaeth gorfforaethol yn 2021. Pan fydd Trafnidiaeth Cymru'n diweddaru ei strategaeth yn 2026 mae cyfle iddo ystyried sut orau i ddod â'i amcanion llesiant a'i strategaeth gorfforaethol ynghyd ac, wrth wneud hynny, adlewyrchu holl ehangder ei gyfrifoldebau (gweler hefyd **baragraffau 11 i 13**).

---

[1] Mae Llythyr Cylch Gwaith Trafnidiaeth Cymru 2022-2027 oddi wrth Lywodraeth Cymru'n cynnwys pum amcan polisi strategol, sef: newid i ddulliau teithio cynaliadwy cymaint ag y bo modd; cyflwyno system drafnidiaeth llawn integredig; meithrin diwylliant teithio aml-ddull yng Nghymru; annog a chefnogi pobl i addasu ac i ystyried dulliau teithio cynaliadwy; a gwella a datblygu cyfleoedd masnachol ac ymddygiadau i gynyddu refeniw a lleihau costau cymaint ag y bo modd.

30 Fe wnaeth Trafnidiaeth Cymru adolygu amcanion llesiant rhai sefydliadau partner wrth bennu ei amcanion ei hun. Yn gadarnhaol, fe wnaeth hefyd gysylltu â rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) penodol sydd ag amcanion trafnidiaeth ac mae bellach yn cyfranogi yng nghyfarfodydd rhai BGCau i gyfrannu at y gwaith hwnnw. [2] Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd o'r farn bod hyn yn bwysig i adnabod cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i roi cymorth i gyflawni ei amcanion ei hun.

31 Mae Trafnidiaeth Cymru eisoes yn gweithio gydag ystod o gyrff cyhoeddus ond mae'n cydnabod bod cyfleoedd i ehangu gwaith mewn partneriaeth i gyflawni amcanion trawsbynciol. Mae Trafnidiaeth Cymru'n bwriadu ail-lansio ei Banel Cynghori ar Ddatblygu Cynaliadwy, sy'n cynnwys arbenigwyr allanol. Mae'n bwriadu ei ehangu trwy wahodd cynrychiolwyr BGCau, a fyddai'n eu galluogi ymhellach i drafod cyfleoedd i gydweithio. Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu perthnasoedd eraill i wireddu ei uchelgeisiau; er enghraifft, parhau i adeiladu ar ei gysylltiadau â Chydbwyllgorau Corfforedig wrth i'w rôl hwy mewn cynllunio a darparu trafnidiaeth yn rhanbarthol dyfu.[3]

## Darparu adnoddau a chyflawni

### Nid yw Trafnidiaeth Cymru wedi sefydlu cyswllt eglur rhwng ei amcanion llesiant a'i gynlluniau busnes ac ariannol eto, ond mae'n bwriadu dechrau mynd i'r afael â hyn

32 Rhaid i Trafnidiaeth Cymru nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant yn ei ddatganiad llesiant. Mae hyn yn un o ofynion y Ddeddf, ond mae hefyd yn bwysig am bod amcanion llesiant Trafnidiaeth Cymru'n rhai eang a lefel-uchel.

---

[2] Sefydlwyd BGCau trwy'r Ddeddf i ddwyn ynghyd arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol i asesu anghenion llesiant eu hardaloedd a mynd i'r afael â hwy.

[3] Cyrff corfforedig rhanbarthol a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2021 yw Cydbwyllgorau Corfforedig. Ceir pedwar Cydbwyllgor Corfforedig ledled Cymru. Maent yn gyfrifol am gynllunio datblygiad strategol, cynllunio trafnidiaeth yn rhanbarthol, a hybu llesiant economaidd eu hardal.

33 Yn gadarnhaol, mae datganiad llesiant Trafnidiaeth Cymru'n disgrifio camau y mae'n bwriadu eu cymryd ar gyfer y tymor byr a hwy. Mae rhai camau'n eglur ac yn rhai CAMPUS.[4] Fodd bynnag, ceir disgrifiad naratif pellach hefyd o'r hyn y mae Trafnidiaeth Cymru'n gobeithio ei wneud mewn adran ar wahân yn y datganiad. Gallai datganiad llesiant Trafnidiaeth Cymru roi disgrifiad mwy eglur o'r amryw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

34 O dan y Ddeddf, rhaid i ddatganiadau llesiant nodi peth gwybodaeth benodol arall hefyd. Er enghraifft, rhaid iddynt nodi sut y mae cyrff yn bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n flynyddol at ddiben cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Nid yw datganiad llesiant Trafnidiaeth Cymru'n cwmpasu hyn. Nid yw ychwaith yn nodi'r disgrifiad angenrheidiol o sut y bydd ei drefniadau llywodraethu'n ategu ei amcanion llesiant.

35 Er nad ydym wedi eu hadolygu'n fanwl, rydym yn nodi bod gan Trafnidiaeth Cymru gynlluniau a phrosesau i roi cymorth i gyflawni ei Strategaeth Gorfforaethol 2021-2026. Mae'r strategaeth yn nodi cyfeiriad y sefydliad, gyda chynlluniau busnes blynyddol sy'n nodi sut y bydd Trafnidiaeth Cymru'n gweithio tuag ato. Mae cynllun busnes Trafnidiaeth Cymru ar gyfer 2025-26 yn cyfeirio at y llu o ffyrdd y gall trafnidiaeth gyfrannu at lesiant Cymru.

36 Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn paratoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) pum mlynedd. Mae'n modelu tybiaethau i roi arwydd i Lywodraeth Cymru o'r cyllid sy'n ofynnol ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol. Mae Trafnidiaeth Cymru yn diweddaru'r CATC bob blwyddyn.[5]

---

[4] Ystyr 'CAMPUS' yw Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol.

[5] Mae Trafnidiaeth Cymru'n cael cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi nodi bod hyn yn creu her arbennig o ystyried natur hirdymor buddsoddiadau mewn seilwaith trafnidiaeth. Mae hyn yn adlewyrchu thema ehangach a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad Dim amser i'w golli a gyhoeddwyd gennym ym mis Ebrill 2025 ar y modd y mae cyrff cyhoeddus wedi bod yn rhoi'r Ddeddf ar waith.

37 Fel a nodwyd ym **mharagraff 11**, nid oedd yr amcanion llesiant wedi cael eu hymgorffori mewn prosesau cynllunio strategol a oedd yn bodoli eisoes pan oeddem yn casglu ein tystiolaeth. Er bod peth croesgyfeirio rhwng y datganiad llesiant a'r cynllun busnes, nid oes cyswllt datganedig. Gallai sefydlu cyswllt o'r fath helpu i gysylltu'r amcanion ag ystod ehangach o weithgareddau Trafnidiaeth Cymru. Gallai hefyd sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cael eu cyflawni ac yn cael eu monitro'n rheolaidd (gweler **paragraffau 45 i 46**).

38 Mae Trafnidiaeth Cymru'n bwriadu mynd i'r afael â hyn trwy ddatblygu matrics i ddangos sut y mae'r datganiad llesiant a'r cynlluniau busnes yn cysylltu â'i gilydd yn ystod 2025-26. Wedyn mae'n bwriadu gwneud cysylltiadau amlwg yn ei gynllun busnes 2026-27.

39 Fodd bynnag, mae Trafnidiaeth Cymru'n gweithredu'n ehangach i hwyluso gwaith i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae wedi nodi hyn mewn rhaglen waith bwrpasol. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys datblygu trefniadau llywodraethu Trafnidiaeth Cymru ymhellach i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei hystyried fel rhan o wneud penderfyniadau ac i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol ar yr amcanion (gweler **paragraffau 45 i 46**). Mae'n ystyried datblygu Is-bwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol (fel is-grŵp i'r tîm gweithredol) a Gweithgor Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Monitro

### Mae Trafnidiaeth Cymru wedi adnabod dangosyddion i helpu i ddeall yr effaith y mae'n ei chael trwy ei amcanion, ond mae'n cydnabod bod angen iddo'u mireinio a sicrhau goruchwyliaeth effeithiol

40 Mae datganiad llesiant Trafnidiaeth Cymru'n cynnwys gwybodaeth am sut y mae'n bwriadu monitro ei amcanion llesiant. Mae wedi datblygu 'fframwaith effeithiolrwydd cymdeithasol' sy'n cwmpasu pob un o'r pedwar amcan llesiant.

41 Mae'r fframwaith yn cwmpasu mesurau cenedlaethol, yn benodol dangosyddion cenedlaethol y Ddeddf a mesurau monitro Llwybr Newydd. Mae hefyd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â diogelwch, profiad cwsmeriaid, pobl, cyllid a chynaliadwyedd. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn yn helpu Trafnidiaeth Cymru i fesur cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn ei strategaeth gorfforaethol ac mewn ymateb i'w lythyr cylch gwaith ac mae Trafnidiaeth Cymru'n adrodd arnynt yn gyhoeddus ar ei wefan.

42 Mae'n beth cadarnhaol bod Trafnidiaeth Cymru wedi ystyried sut y bydd yn mesur allbynnau a deilliannau fel rhan o'r fframwaith hwn, a'i fod wedi ystyried yr effaith y bydd yn ei chael ar ddangosyddion cenedlaethol. Fodd bynnag, mae wedi adnabod bod gwaith i'w wneud i fireinio rhai o'i ddangosyddion.

43 Hefyd, fel a nodir ym **mharagraff 33**, gallai Trafnidiaeth Cymru gyflwyno'r camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant yn fwy eglur. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod cyswllt rhwng y camau gweithredu y mae Trafnidiaeth Cymru'n bwriadu eu cymryd a'r dangosyddion yn ei fframwaith effeithiolrwydd cymdeithasol.

44 Goleuir rhai o fesurau sefydledig Llwybr Newydd gan ddata sydd wedi mynd yn hen a/neu ddata dirprwy sy'n cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd y disgwylir iddo ddarparu data gwell ar gyfer rhai o'r mesurau.[6] Fodd bynnag, ni fydd y data ar gael tan 2026. Er y gallai'r data yma o'r Arolwg Teithio Cenedlaethol ddarparu data gwell, mae rhai mesurau'n debygol o fod yn newydd, a bydd yn cymryd amser i ddatblygu dadansoddiad hydredol.

---

[6] Fe wnaethom gyffwrdd ar gynlluniau ar gyfer yr Arolwg Teithio Cenedlaethol yn ein hadroddiad ar Deithio Llesol yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024.

45 Ar adeg ein gwaith maes, roedd Trafnidiaeth Cymru'n dal i weithio trwy sut y byddai'n adrodd ar gynnydd yn erbyn y fframwaith. Bydd angen iddo ystyried sut y mae'n dod â gwybodaeth eglur ynghyd ar draws y llu o ddangosyddion, sy'n helpu i adrodd stori'r cynnydd ac effaith yn erbyn ei amcanion llesiant. Fel a ddisgrifir ym **mharagraff 39**, mae Trafnidiaeth Cymru'n ystyried sut y gall ddatblygu ei strwythurau llywodraethu ymhellach i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ar yr amcanion llesiant.

46 Mae Trafnidiaeth Cymru wedi sefydlu trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad a chynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn ei gynllun busnes. Mae'n adrodd wrth y Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd trwy adroddiadau chwarterol ar gerrig milltir busnes. Mae hefyd yn adrodd wrth Lywodraeth Cymru trwy gyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad.

47 Fel a ddisgrifiwyd ym **mharagraff 35**, mae Trafnidiaeth Cymru'n bwriadu datblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng ei gynllun busnes a'i ddatganiad llesiant. Mae hyn yn gyfle i fonitro cynnydd tuag at yr amcanion llesiant fel rhan o adroddiadau rheolaidd ar berfformiad. Yn fwy cyffredinol, bydd gan Trafnidiaeth Cymru gyfle i ystyried sut y mae'n dwyn ei adroddiadau yn erbyn ei amryw gynlluniau ac amcanion ynghyd pan fo'n diweddaru ei strategaeth gorfforaethol.

48 Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn datblygu cerdyn sgorio i helpu i fonitro effeithiau hirdymor penderfyniadau a gwerthuso sut y mae prosiectau'n cyfrannu at yr amcanion llesiant. Bydd y cerdyn sgorio'n rhan o fframwaith gwireddu manteision ehangach, i ategu Dangosyddion Perfformiad Allweddol presennol Trafnidiaeth Cymru. Gallai hyn helpu i oleuo penderfyniadau a'r modd y blaenoriaethir gwariant hefyd, yng nghyd-destun yr amcanion llesiant.

# Argymhellion

49 Mae ein hargymhellion yn ceisio sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru'n gallu cyflawni ei amcanion llesiant cyfredol yn effeithiol a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau mwy helaeth y tro nesaf y bydd yn eu pennu.

**A1** Dylai Trafnidiaeth Cymru roi ei amcanion llesiant wrth graidd y sefydliad, gan gynnwys trwy:

**1.1** adnabod sut orau y gall integreiddio'r amcanion llesiant pan fydd yn diweddaru ei strategaeth gorfforaethol (gweler **paragraffau 13 a 29**).

**1.2** sefydlu cysylltiadau eglur rhwng yr amcanion llesiant a'r cynllun busnes blynyddol, gan sicrhau bod y camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion wedi'u diffinio'n glir (gweler **paragraffau 33 a 35 i 37**).

**1.3** sefydlu trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer yr amcanion llesiant, sydd wedi'u cysylltu'n briodol â'i strategaeth gorfforaethol a'i gynllun busnes (gweler **paragraffau 45 i 47**).

**A2** Y tro nesaf y bydd Trafnidiaeth Cymru'n pennu amcanion llesiant, dylai sicrhau eu bod hwy, a'r camau cysylltiedig, yn adlewyrchu'r ystod lawn o swyddogaethau sydd ganddo, gan gynnwys cysylltiadau mwy datganedig â'i weithgarwch masnachol.

Dylid ystyried yr argymhelliad hwn mewn perthynas ag 1.1, a'r cyfle i integreiddio'r amcanion llesiant fel rhan o ddiweddaru'r strategaeth gorfforaethol yn 2026.

**A3** Y tro nesaf y bydd yn datblygu datganiad llesiant, dylai Trafnidiaeth Cymru sicrhau ei fod yn cwmpasu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol dan y Ddeddf; gan gynnwys sut y mae'n cynnig ei lywodraethu ei hun i gyflawni ei amcanion a sut y mae'n cynnig sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n flynyddol at ddiben cymryd camau o'r fath (gweler **paragraffau 10 a 34**).

**A4** Dylai Trafnidiaeth Cymru ehangu a chryfhau sut y mae'n cynnwys rhanddeiliaid y tro nesaf y bydd yn pennu ei amcanion llesiant, gan gynnwys trwy wneud y canlynol:

**4.1** Ceisio barn amrywiaeth y boblogaeth (gweler **paragraff 22**).

**4.2** Ceisio barn sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol (gweler **paragraff 23**).

**4.3** Gwneud mwy i gynnwys staff ac undebau llafur. Wrth gynnwys undebau llafur, dylai Trafnidiaeth Cymru sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, gan weithio gyda hwy yn ystod y cyfnod ffurfiannol a thrwy gydol y broses (gweler **paragraffau 20 i 21**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i Trafnidiaeth Cymru bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf ei gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant cenedlaethol.

Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio i ba raddau y mae Trafnidiaeth Cymru wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cynnal archwiliad o'r natur hon o leiaf unwaith mewn cyfnod adrodd penodedig. Daw'r cyfnod adrodd cyfredol i ben ym mis Mai 2029.

Fe archwiliom ni sut yr aeth Trafnidiaeth Cymru ati i bennu ei amcanion llesiant cyntaf, a wnaeth rhwng gwanwyn 2024 a mis Ebrill 2025. Fe wnaethom gasglu ein tystiolaeth rhwng mis Mai 2025 a mis Awst 2025.

Roedd hwn yn adolygiad gweddol lefel-uchel. Roedd ein prif ffocws ar y broses a arweiniodd at gyhoeddi'r amcanion. Rydym wedi ystyried cynllunio corfforaethol ac ariannol i'r graddau y maent yn berthnasol i sut y gwnaeth Trafnidiaeth Cymru ddatblygu ei amcanion llesiant a dechrau cynllunio ar gyfer eu cyflawni. Nid ydym wedi asesu effeithiolrwydd prosesau cynllunio corfforaethol ac ariannol Trafnidiaeth Cymru ar y cyfan.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Wrth wneud y gwaith hwn, fe wnaethom archwilio'r canlynol:

- A gafodd y broses a sefydlodd Trafnidiaeth Cymru i bennu ei amcanion llesiant ei thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?

- A yw Trafnidiaeth Cymru wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw Trafnidiaeth Cymru wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd, dysgu, a pharhau i wella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?

### Meini prawf

Fe ddefnyddiom ni feini prawf archwilio i oleuo ein hasesiad. Mae'r meini prawf archwilio'n disgrifio sut y mae da'n edrych ac yn cwmpasu pob un o bum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u defnyddio'n flaenorol yn ein harchwiliadau o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Fe ddatblygom ni'r dangosyddion hyn trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac fe'u goleuwyd gan gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys datganiad llesiant Trafnidiaeth Cymru, tystiolaeth sydd wedi goleuo ei ffordd o feddwl am yr amcanion llesiant, ei Strategaeth Gorfforaethol 2021-2026, a'i Gynllun Busnes 2025-26.

Fe wnaethom hefyd gyfweld â staff a oedd wedi arwain y broses o ddatblygu'r amcanion llesiant a sampl o uwch aelodau o staff.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir fel y 'broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant'. |
| **Egwyddor datblygu cynaliadwy** | Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd 'sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.<br>Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cynnwys pum ffordd o weithio:<br>• Hirdymor<br>• Integreiddio<br>• Cynnwys<br>• Cydweithio<br>• Atal. |
| **Hirdymor** | Pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Integreiddio** | Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Cynnwys** | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyrraedd y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. |
| **Cydweithio** | Cydweithio gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| **Atal** | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Nodau llesiant cenedlaethol** | Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant.<br><br>Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i gyrraedd yr holl nodau, nid dim ond un neu ddau. |
| **Dangosyddion cenedlaethol** | Set o ddangosyddion i fesur y cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant ar lefel genedlaethol, yn hytrach na pherfformiad cyrff cyhoeddus unigol. |
| **Amcanion llesiant – a chamau i'w cyflawni** | Rhaid i gyrff cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf eu cyfraniad at gyrraedd pob un o'r nodau llesiant.<br>Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni eu swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny. |
| **Datganiadau llesiant** | Wrth gyhoeddi amcanion llesiant, rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad llesiant hefyd. Rhaid i ddatganiadau llesiant gynnwys gwybodaeth benodol. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys: |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • pam fod corff o'r farn y bydd cyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant; a hefyd<br>• y camau y mae corff yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny. |
| **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** | Dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn arbennig, gweithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau a wnânt. Mae gwefan y Comisiynydd yn darparu rhagor o wybodaeth am eu gwaith. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.